

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: (Medi 22 2021)

STATWS: GWYBODAETH

CATEGORI: LLYTHYR GWEITHIWR IECHYD PROFFESIYNOL

Teitl: Penderfyniadau Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Bywyd

Dyddiad dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad : Awst 2023

I'w weithredu gan:
Ymddiriedolaethau a byrddau iechyd

Angen gweithredu erbyn: Ar unwaith
Gweler paragraff 6

Anfonwr:
Yr Athro Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Iechyd Poblogaethau

Enw(au) Cyswllt AIGC Llywodraeth Cymru:
Vivienne Collins, Gofal Iechyd Poblogaethau, CP2, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.- 03000 615922

Dogfennau amgaeedig: Dim (gweler yr hyperddolenni)

At: Prif Weithredwyr, GIG Cymru

Cc: Arweinwyr gofal diwedd oes ymddiriedolaethau a byrddau iechyd

Medi 2021

Annwyl Brif Weithredwyr

CANLLAWIAU CYMRU GYFAN: PENDERFYNIADAU GOFAL AR GYFER DYDDIAU OLAF BYWYD

Elfen allweddol o angen cleifion, ac anghenion eu teuluoedd, yw gofal da ar 'ddiwedd oes'. Diben y Cylchlythyr Iechyd hwn yw pwysleisio pa mor bwysig ydyw bod gofal da i gleifion yn parhau hyd at ddiwedd eu hoes, waeth beth fo cyflwr person neu ble y caiff gofal ei ddarparu, boed hynny yn y cartref, gan gynnwys cartrefi gofal, yn yr ysbyty neu mewn uned hosbis.

Mae'r pandemig COVID-19 diweddar wedi dangos pa mor bwysig ydyw bod pob aelod o staff yn gwybod ac yn deall pa mor werthfawr yw gofal da ar ddiwedd oes. Mae hyn yn cynnwys pa gamau i'w cymryd i sicrhau bod y cleifion yn gyfforddus, cyfathrebu da, rheoli symptomau a sut i gael gafael ar gyngor a chymorth ychwanegol. Ar hyn o bryd, ynghanol pandemig byd-eang, mae pwysigrwydd darparu gofal o ansawdd uchel a chefnogi staff y GIG a staff gofal eraill, yn arbennig y rheini nad ydynt yn gofalu'n rheolaidd am gleifion sy'n marw a'u teuluoedd, yn cael ei gydnabod yn llawn. Mae'r Canllawiau Penderfyniadau Gofal ar gyfer dyddiau olaf bywyd yn cefnogi staff clinigol i ddarparu gofal da ar ddiwedd oes; mae'r fersiwn 11 diweddaraf bellach ar gael i ymddiriedolaethau a byrddau iechyd.

Cefndir

Mae ansawdd y gofal a roddir i glaf sy'n marw'n cael effaith barhaol ar deuluoedd a gofalwyr. Mae gofal o ansawdd da ar ddiwedd oes a chyfathrebu da rhwng gweithwyr proffesiynol a theuluoedd yn helpu unigolion ar ddiwedd eu hoes ac yn helpu teuluoedd i ymdopi â phrofedigaeth. Mae'r Canllawiau Penderfyniadau Gofal yn seiliedig ar dystiolaeth arfer dda ac yn cael eu cydnabod yn genedlaethol fel adnodd allweddol i gefnogi pawb sy'n darparu gofal yn ystod dyddiad ac oriau olaf bywyd.

Mae fersiwn ddiweddaraf y Canllawiau, fersiwn 11, wedi cael ei datblygu gyda chymorth rhanddeiliaid, partneriaid a grwpiau sy'n cynrychioli cleifion/gofalwyr ledled Cymru. Bwriedir i'r Canllawiau gael eu defnyddio ym mhob lleoliad: yng nghartrefi pobl, mewn cartrefi gofal, ym mhob ysbyty gan gynnwys ysbytai aciwt, cymunedol ac iechyd meddwl, ym mhob hosbis ac unedau gofal lliniarol arbenigol o fewn y GIG a'r sector gwirfoddol.

Mae fersiwn 11 hefyd yn cynnwys canllawiau atodol. Mae'r Atodiad cyntaf yn trafod Rheoli Symptomau COVID-19 – *All Wales Supplementary Symptom Control Guidance for palliative management of patients with COVID-19 infection*. Mae hyn yn ychwanegol at y Canllawiau Rheoli Symptomau yn y Canllawiau Penderfyniadau Gofal, i helpu gofalu am gleifion sy'n oedolion ac sydd â haint COVID-19, lle mae angen rheoli'r cyflwr mewn modd lliniarol. Mae'r ail atodiad yn trafod sut i reoli diabetes - *All Wales Symptom Control Guidance for palliative management of patients with diabetes*. Hefyd, ceir Atodiad ar Ystyried Amrywiaeth; adnodd i staff gofal iechyd, i helpu i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar ddiwedd oes.

Gweithredu

Nod y Cylchlythyr Iechyd hwn yw rhoi gwybod i bob ymddiriedolaeth a bwrdd iechyd yng Nghymru bod y Canllawiau Penderfyniadau Gofal presennol yn cael eu disodli ar unwaith. Rydym am sicrhau bod staff yn gyfarwydd â'r gofynion, ac yn meddu ar y sgiliau llawn i ddarparu'r lefel o ofal cyson sydd ei angen ar gleifion a'u hanwyliaid yn ystod dyddiau olaf eu bywydau. Gofynnir i fyrddau iechyd gefnogi eu sefydliad, gwasanaethau'r sector gwirfoddol a phartneriaid i helpu i rannu, defnyddio a gweithredu fersiwn 11 o'r Canllawiau Penderfyniadau Gofal.

Mae gan bob ymddiriedolaeth a bwrdd iechyd weithwyr proffesiynol allweddol sy'n arwain ac yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth ar ddefnyddio'r Canllawiau Penderfyniadau Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Bywyd. Gofynnwn i chi dalu sylw arbennig i leoliadau nad ydynt wedi defnyddio'r Canllawiau mor aml yn y gorffennol, a'u cefnogi i ddefnyddio'r dulliau ar gyfer monitro ac archwilio gofal yn nyddiau olaf bywyd ac ar gyfer mesur canlyniadau a phrofiad.

Gallwch weld y Canllawiau Penderfyniadau Gofal drwy'r dolenni canlynol:

<https://cydweithrediad.gig.cymru/grwpiau-gweithredu/gofal-diwedd-oes1/canllawiau-penderfyniadau-gofal-ar-gyfer-dyddiau-olaf-bywyd/>

[Canllawiau penderfyniadau gofal ar gyfer dyddiau olaf bywyd](#)

Dylai'r Canllawiau Penderfyniadau Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Bywyd gael eu hystyried a'u rhoi ar waith ochr yn ochr â Chanllawiau NICE 2015 '*Gofalu am Oedolyn sy'n Marw*' a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes, sydd wedi cael ei ymestyn, ynghyd â'i gyllid cysylltiedig, tan fis Ebrill 2022.

Os oes gennych sylwadau cyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â'r Gangen Iechyd Pobl Hŷn a Chyflyrau Cronig drwy Vivienne.collins@gov.wales ffôn: 03000 615922. Neu i gael gwybodaeth benodol, cysylltwch â Melanie.lewis5@wales.nhs.uk

Yn gywir

YR ATHRO CHRIS JONES